Babell Y Garn Madog Nasareth Pen-llwyn Rehoboth Seion

# Gair o'r Garn

## Cylchlythyr yr Ofalaeth

Seion Rehoboth Pen-llwyn Nasareth Madog Garn Babell

Cyfres newydd, rhif 39 Gwanwyn 2017




**'Y deyrnged orau y gallaf ei rhoi i Wyn yw dweud**
**iddo fod yn was diwyd a ffyddlon**
**a fu'n gyson o ddifrif dros ei Grist.'**

Annwyl ffrindiau,

Rhyw ddwy fil o flynyddoedd yn ôl mewn goruwchystafell yn Jerwsalem daeth nifer o bobl ynghyd o gylch y bwrdd i swpera. Bwriad yr achlysur oedd dathlu Gŵyl y Pasg, a dyma'r Iesu'n achub ar y cyfle i sgwrsio â'i ddisgyblion ynglŷn â'i fywyd, ei weinidogaeth a'i genhadaeth, ac yntau'n gwybod fod awr ei ymadawiad yn agosáu. Penderfynodd fynegi ei syniadau drwy alw ei hun yn 'wir winwydden', a Duw, ei Dad Nefol, yn 'winllannwr'. Pwy ŵyr, efallai mai gwin y Swper Olaf a'i symbylodd i feddwl am y winwydden yn y lle cyntaf!

Y winwydden a'i changhennau oedd un o'r symbolau mwya trawiadol a ddefnyddiwyd gan Iesu yn ystod ei weinidogaeth. Roedd yn alegori y gallai pawb ei deall, yn ddelwedd oedd yn llawn ystyr ac arwyddocâd. Yn yr Hen Destament gwneir defnydd helaeth o'r winwydden fel symbol o Israel ac, yn fwyaf arbennig, fel eglurhad o'r berthynas unigryw a fodolai rhwng Duw a'i bobl: 'Daethost â gwinwydden o'r Aifft; gyrraist allan genhedloedd er mwyn ei phlannu; cliriaist y tir iddi; magodd hithau wreiddiau a llenwi'r tir.' (Salm 80:8–9) 'Plennaist di yn winwydden bêr, o had glân pur.' (Jeremeia 2:21) Ond er mai Duw oedd wedi plannu'r winwydden ac iddi gael pob gofal, ni ddygodd ffrwyth: 'Disgwyliodd (Duw) iddi ddwyn grawnwin, ond fe ddygodd rawn drwg.' (Eseia 5:2)

Mae Iesu'n adeiladu ar y ddelwedd hon drwy hawlio mai ef oedd y wir winwydden, yr un ddilys a real mewn cyferbyniad â'r un ddiffrwyth a gwyllt, sef yr hen Israel: 'Myfi yw'r winwydden; chwi yw'r canghennau. Y mae'r sawl sydd yn aros ynof fi, a minnau ynddo yntau, yn dwyn llawer o ffrwyth, oherwydd ar wahân i mi ni allwch wneud dim.' (Ioan 15:5) Nid cenedl Israel, bellach, yw'r winwydden a blannodd Duw, ond Crist. Daeth Iesu i'r byd i roi bodolaeth i'r Israel newydd, sef yr Eglwys, a thrwy fod yn aelodau ohoni mae ei ddisgyblion yn ganghennau sydd wedi'u himpio a'u cysylltu i'r wir winwydden ei hun. Ond beth os nad yw ei haelodau yn deilwng a ffyddlon? Mae Iesu'n ein rhybuddio y bydd Duw, y gwinllannwr, yn torri i ffwrdd y canghennau diffrwyth, ond am y rhai sy'n dwyn ffrwyth bydd y Tad Nefol yn eu glanhau er mwyn iddynt ddwyn rhagor o ffrwyth. Golyga hynny fod yn rhaid wrth ddisgyblaeth gyson. Rydym eisoes yn lân yn rhinwedd ein perthynas ag Iesu, ond os ydym i barhau i ddwyn ffrwyth, rhaid i'r canghennau fod mewn undeb bywiol ac organig â'r winwydden, a sugno ohoni nod a maeth bywiol. Mae'n hanfodol felly ein bod yn aros ynddo Ef, ac yntau ynom ni.

Mae'r sawl sy'n peidio â bod yn y berthynas hon â Christ yn union fel cangen sydd wedi'i thorri ymaith, yn gwywo, heb fod yn dda i ddim ond fel rhywbeth i'w thaflu i'r tân a'i llosgi (Ioan 15: 6).

Mae'r rhybudd hwn yn un a rydd Iesu i'w ddisgyblion ym mhob oes. Rhaid bod mewn cymundeb agos ag Ef, fel y gallwn ddwyn ffrwyth. Ni all y gangen ddwyn ffrwyth ohoni ei hun, waeth pa mor galed y bydd yn ymdrechu. Dail i gyd fydd ein hanes wedyn – dim ffrwyth! Yn y Gyffes Fer o'n Ffydd ceir y datganiad 'mai diben pennaf dyn ydyw gogoneddu Duw a'i fwynhau byth ac yn dragywydd'. Drwy ogoneddu Duw yn barhaus rydym yn rhoi ufudd-dod perffaith iddo. Fe wnaeth Iesu hynny drwy fynd i'r Groes a marw trosom. Bu'n ufudd i'r eithaf i'w Dad Nefol. Yr hyn sy'n dangos ein gwir ufudd-dod yw'r ffrwyth a ddygwn. Mwyaf yn y byd yr ydym yn aros yng Nghrist ac yn caniatáu iddo ef aros ynom ni, mwya'r ffrwyth y byddwn yn ei ddwyn; a'r pennaf o'r ffrwythau yma yn ddiau yw cariad.

Wrth i mi ffarwelio â chi fel eich bugail, rwyf yn eich annog yn daer i aros yng ngharíad Crist. Bydd Duw y gwinllannwr yn sicr o'ch glanhau ac o ofalu amdanoch drwy eich gwneud yn fwy ffrwythlon a chynhyrchiol o ddydd i ddydd. Ni all y gangen ddwyn ffrwyth ohoni ei hun. Mae'n rhaid iddi wrth faeth y wir winwydden, sef yr Arglwydd Iesu, ynghyd â gofal cyson y gwinllannwr, sef ein Tad Nefol.

Tydi yw'r wir Winwydden, Iôr,
sy'n fythol ir a byw,
a ninnau yw'r canghennau sydd
dan bla ein dydd yn wyw.

O deued llaw drugarog, Iôr,
i'n trin a'n llwyr lanhau
a doed y nod sydd ynot ti
i'n treiddio a'n bywhau.

Ni allwn wneuthur dim, ein Iôr,
os ceisiwn hebot ti;
ein grym fydd aros ynot mwy;
a thithau ynom ni.

*Arthur Williams*

Gras ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw, a chymdeithas yr Ysbryd Glân fyddo gyda chwi oll.

Wyn Morris (Bugail)

## *Gair o'r Ofalaeth*

Anodd meddwl ei bod erbyn hyn yn ddeng mlynedd er pan ffarweliasom â'r Parchedig R. W. Jones a'i bod bellach yn bryd inni ffarwelio â'r Parchedig Wyn Morris yntau.

Clywais rywun yn disgrifio galwedigaeth gweinidog yn y Gymru sydd ohoni fel un o'r rhai mwyaf anodd sy'n bod. Mewn cyfnod lle mae pwysau seciwlariaeth yn llethol, lle mae tueddiadau o bob math yn swcro enciliad, a lle mae newidiadau demograffig ac ieithyddol hwythau yn gwanychu ymneilltuaeth Gymraeg, mae'n fyd anodd ar ein gweinidogion prin. Dyma'r math o amgylchfyd y bu'n rhaid i Wyn ei wynebu yn ystod cyfnod ei weinidogaeth arnom. Ond fe wynebodd amgylchiadau'r dydd yn wrol ac yn unplyg gan gynnal a gwarchod fflam y ffydd yn ein plith yn wiw, yn gadarn, ac yn ddyfalbarhaus. Y deyrnged orau y gallaf ei rhoi i Wyn yw dweud iddo fod yn was diwyd a ffyddlon a fu'n gyson o ddifrif dros ei Grist.

Mae pregethu'r Gair yn greiddiol i waith pob gweinidog. Yn y pulpud nid un i arfer triciau slic i fod yn 'boblogaidd' nac i rethregu'n swnllyd mo Wyn. Eto yr oedd grym – cryfach na grym rhethreg – yn ei eiriau, grym yn deillio o gred angerddol ac o argyhoeddiad crefyddol dwfn. Huodledd y cynnwys oedd huodledd ei bregethau ef. Cristnogion go amherffaith a thila yw llawer ohonom, ond prin fod yr un enaid yn ein plith na fu ar ei ennill yn ysbrydol o wrando ar bregethu Wyn ym mhulpudau'r ofalaeth yn ystod y deng mlynedd diwethaf. Rhaid nodi hefyd ei bod yn amlwg nad pethau ffwrdd-â-hi oedd ei bregethau, ond cynnyrch myfyrio dwys a pharatoi gofalus. Fe'u saernïwyd yn gelfydd a'u traddodi'n urddasol mewn iaith gyfoethog ac arni flas ac arlliw Cymraeg hyfryd Sir Gâr.

Yn yr eglwysi lle'm magwyd i yn sir Feirionnydd, a'r eglwysi y bûm wedyn yn aelod ohonynt ym Môn, nid oedd yn draddodiad i gyfeirio at y gweinidog fel 'Bugail'. Yr arfer oedd cyfeirio'n foel at 'y gweinidog'. Gymaint cynhesach yw'r gair 'Bugail'! A gair tra addas yw 'Bugail' i gyfeirio at weinidogaeth Wyn yng ngofalaeth y Garn. Bu'n garedig ac yn gynnes ei ofal o'i braidd, yn glaf, yn wan, ac yn drallodus. Nid digon yw dweud amdano iddo fod yn 'gydwybodol': mae'r gair hwnnw fwy nag ychydig yn annigonol yn ei achos ef.

Rhaid i'r mwyaf cydwybodol o blant dynion ymlacio weithiau. Yn achos Wyn mae cyfeirio at 'hen nwyd y bêl yng nghalon sant' yn dra phriodol! Fe wyddom oll am ei grwydriadau tramor yn sgil dilyn y bêl gron: haedda'r llun enwog ohono gyda pheldroedwyr Cymru mewn gwesty yng Nghyprus a'r llun ohono yng nghrys coch Cymru yn rhodianna ar stryd yn haul Ffrainc ym Mehefin 2016 gael eu cynnwys yn yr oriel luniau yn festri Capel y Garn maes o law! Mae sôn y gwelir ef wedi ymddeol yn mentro ar deithiau i bellafoedd Rwsia a Qatar yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Buasai'r darn hwn yn anghyflawn heb imi gyfeirio at Judith. Pan gawsom ei chwmni – yn anorfod nid oedd hynny'n aml oherwydd bagad ei gofalon hithau – fe'n trawyd gan ei hynawsedd cynnes a'i hawddgarwch. Hawdd dychmygu iddi fod yn graig ac yn gynhaliaeth i Wyn yn ei weinidogaeth, ac felly yntau iddi hithau.

Gyda llawer o ddiolch, a chan ddymuno pob bendith i Wyn ac i Judith,

Ar ran pawb yng ngofalaeth y Garn,
Gruffydd Aled Williams
Ysgrifennydd Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth



*Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth, Chwefror 2017*

## *Gair o Ben-llwyn*

A ninnau nawr ar drothwy'r Pasg, naturiol yw ein bod yn ystyried diwedd cyfnod a dechreuadau newydd. Rydym yn gweld arwyddion o wanwyn a gwelir byd natur yn dechrau ar fywyd newydd. Mae'r coed yn eu blagur a blodau newydd i'w gweld yn y cloddiau ac yn ein gerddi. Yn hanes yr ofalaeth, mae'r Pasg eleni yn gyfnod o ystyried diwedd cyfnod ac o edrych ymlaen yn obeithiol at gyfnod newydd.

Adeg y Pasg cyntaf, cafodd y disgyblion a'r gwragedd siom wrth iddynt agosáu at y bedd gwag. Siom o'r mwyaf iddynt oedd gweld y bedd yn wag. Roedd y siom a'r boen gymaint yn waeth oherwydd eu bod wedi cael cymaint o bleser yng nghwmni eu Gwaredwr a'u Harglwydd. Teimlad o dristwch sydd yn ein hwynebu wrth i ni ystyried fod cyfnod ein gweinidog wedi dod i ben. Rydym wedi cael bendith o'i weinidogaeth ac wedi mwynhau ei gwmni hawddgar. Serch hynny, wrth wynebu ein siom, rhaid i ni edrych yn obeithiol ac yn weddigar tuag at ein Duw sydd yn darparu mewn ffordd mor drugarog ar ein cyfer.

Bedair blynedd yn ôl, yn y gwasanaeth sefydlu ym Mhen-llwyn, fe'n siarsiwyd ac fe'n hatgoffwyd ein bod fel Cristnogion ar ffordd, a bod hon yn ffordd arbennig: 'Ffordd a'i henw yn "Rhyfeddol" … ffordd yn gwneud y meirw'n fyw'. Fe'n hatgoffwyd y diwrnod hwnnw fod y ffordd hon yn ffordd ddiogel ac yn ffordd ddedwydd. Priodol yw cofio'r geiriau hynny y dyddiau hyn, wrth i ni wynebu cyfnod ansicr. Rydym ar hyn o bryd ar groesffordd, yn ansicr o'r ffordd o'n blaen ac mae angen ffydd y bydd Duw yn parhau i'n harwain ac y bydd yn ein tywys ar hyd ffordd ddiogel a dedwydd.

Wrth i ni ffarwelio gyda'r Parchedig Wyn Morris, dymunwn yn dda iddo ar ddechrau cyfnod newydd yn ei hanes. Mae'r adnodau hynny a ddyfynnwyd yn y gwasanaeth sefydlu yn arbennig o berthnasol wrth i ni ffarwelio gyda'n gweinidog, 'Boed i'r Arglwydd eich bendithio chi a'ch amddiffyn chi. Boed i'r Arglwydd wenu'n garedig arnoch chi a bod yn hael tuag atoch chi. Boed i'r Arglwydd fod yn dda atoch chi a rhoi heddwch i chi.' (Numeri 6:24–6)

Mae Mr Eilir Morris yntau wedi penderfynu fod ei dymor fel Gofalwr yr Adeiladau wedi dod i ben. Gwerthfawrogwn ei ymroddiad diflino yn y swydd hon am dros ddeugain mlynedd. Cafodd Eilir ei ddwyn i fyny yn fab y Mans, gan i'w dad, y Parch. Maelwyn Morris, wasanaethu Eglwys Pen-llwyn am nifer o flynyddoedd o'r tridegau hyd at ddiwedd pumdegau'r ganrif ddiwethaf. Dymunwn yn dda iddo, gan gofio'n ddiolchgar am ei barodrwydd a'i ymrwymiad cydwybodol a'i ofal o'r adeiladau.

## Y Parchedig Wyn Rhys Morris

## ar ei Ymddeoliad o'r Weinidogaeth, 2017

Megis y gŵr ym mynwent Talgarth gynt,
Synhwyrai'r anadl o'r uchelder mawr
Sy'n dala chwythwm o'r anfeidrol wynt
Gynhyrfa'r ysbryd ar annisgwyl awr,
Ymroes i fedi'r weledigaeth hon
Ar hyd arloesol lwybyr Crist fab Mair
A lledu'r efengylau dwys o'r bron
Wrth hau goleuni yr impiedig air.
Hawddgar a grasol yn ein mysg y bu
Gan barchu yr arswydus swydd â'i ffydd,
Ac megis balm i'r enaid yn y Tŷ
Bu ei oleuni ar wirionedd cudd,
'Rôl rhannu'r swper droeon ar y bwrdd
Bu Crist yn cerdded gyda ni o'r cwrdd.

*Vernon Jones*

# Cymanfa Ganu Unedig Gogledd Ceredigion

## Bethel, Tal-y-bont

## Dydd Sul, 14 Mai 2017

## am 10 a 5.30 o’r gloch

## Arweinydd: Alwyn Evans

Trefn y rihyrsals – ar nos Fercher

| | |
|---|---|
| 5 Ebrill | Capel y Morfa am 7 o’r gloch |
| 12 Ebrill | Capel y Garn am 7 o’r gloch |
| 26 Ebrill | Bethel, Aberystwyth, am 7 o’r gloch |
| 3 Mai | Seion, Aberystwyth, am 6.30 o’r gloch |
| 10 Mai | Bethel, Tal-y-bont, am 7 o’r gloch |



## *Cyhoeddiadau'r Ofalaeth &c*

| | |
|---|---|
| 1 Ebrill | Cyfarfod Cenhadol Chwiorydd Gogledd Ceredigion<br>Capel y Garn am 2.30 o'r gloch<br>Anerchir gan Miss Catrin Hughes, Llanafan,<br>ar ei hymweliad â Lesotho |
| 14 Ebrill | Oedfa gymun yr ofalaeth ar fore'r Groglith<br>dan arweiniad Dr Rhidian Griffiths<br>Capel Seion am 10 o'r gloch |
| 19 Ebrill | Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro<br>Wystog, Sir Benfro, am 1.30 o'r gloch |
| 30 Ebrill | Oedfa'r oafalaeth<br>dan arweiniad y Parch. Ddr R. Watcyn James<br>Capel y Garn am 10 o'r gloch |
| 14 Mai | Cymanfa Ganu Unedig Gogledd Ceredigion<br>Capel Bethel, Tal-y-bont, am 10 a 5.30 o'r gloch<br>Arweinydd: Alwyn Evans, Machynlleth |
| 24 Mehefin | Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro<br>Capel y Garn am 1.30 a 6 o'r gloch |
| 25 Mehefin | Gŵyl yr Ysgolion Sul yng Nghanolfan y Morlan,<br>Aberystwyth, am 11.30 o'r gloch<br>yng nghwmni Martyn Geraint a Meilyr Geraint<br>Casgliad at apêl Corwynt Cariad |

Mae'r manylion hefyd i'w gweld ar wefan
y Garn: www.capelygarn.org

Dilynwch ni ar Twitter @capelygarn

## Grŵp Help Llaw Capel y Garn

Cynhaliwyd Te Pnawn llwyddiannus iawn yng Nghapel y Garn ar ddydd Gŵyl Dewi. Gyda'r tywydd yn ffafriol, daeth tyrfa dda i fwynhau paned a sgwrs. Diolch o galon am eich cefnogaeth a'ch cyfraniadau hael er budd ffoaduriaid Syria. Trosglwyddwyd y swm anrhydeddus o £700 i Aberaid i hybu eu gwaith gyda'r ffoaduriaid yn ein cylch.

Rydym yn dal i dderbyn stampiau, hen sbectolau a newid mân ar gyfer y gwahanol elusennau.

Bethan Jones (01970 611502) a Shân Hayward (01970 828268)



Festri'r Garn yn llawn bwrlwm ar ddydd Gŵyl Dewi



Y Parch Wyn Morris a’r gynulleidfa yn dilyn y gwasanaeth bore Sul, 19 Mawrth, yng Nghapel y Garn. Thema’r gwasanaeth oedd ‘Cofio’ ac roedd yn addas iawn fod y plant wedi cael gwahoddiad i ymuno â’r aelodau yn un teulu i gymryd rhan yn sacrament y cymun.



Rhai o aelodau’r Grŵp Help Llaw a drefnodd y Te Pnawn

## Capel y Garn

**Gofal Bugeiliol**

Os bydd aelod o'r teulu neu gymydog yn wael yn yr ysbyty neu wedi cael profedigaeth, a fyddech cystal â rhoi gwybod i Alan Wynne Jones (Ysgrifennydd yr Eglwys: alan.jones212@btinternet; ffôn: 01970 828163) neu un o'r swyddogion, os gwelwch yn dda.

**Llongyfarchiadau calonnog:**

i Dîm y Garn, sef y Parch. Wyn Morris, Gruffydd Aled Williams, Llinos a Cynog Dafis, ar gipio Tarian Her y Morlan yn y cwis blynyddol ym mis Ionawr;

i Elen a Steffan Roberts, Mynydd Gorddu, ar enedigaeth mab, Celt Meredydd, ar 10 Mawrth, brawd bach i Lois a Math, ac ŵyr i Rhian.

**Y Rhestr Flodau**

Os hoffech chi gyfrannu blodau ar gyfer rhai o'r Suliau gwag, cysylltwch â Shân Hayward neu Kathleen Lewis, neu rhowch eich enw ar y rhestr yn y cyntedd, os gwelwch yn dda.
Gwerthfawrogir pob cyfraniad.

| **Ebrill** | **Mai** | **Mehefin** |
|---|---|---|
| **2** Noddfa | **7** Nans Morgan | **4** Noddfa |
| **9** Liz Lloyd Jones | **14** Y Gymanfa | **11** Seintwar |
| **16** Dwysli Peleg-Wms | **21** Gaerwen | **18** Shân Hayward |
| **23** | **28** Eryl | **25** |
| **30** Mair Jenkins | | |

## Ebrill

*Blaenor y Mis: D. Elystan-Morgan*

*I gyfarch wrth y drysau: Eddie T. Jenkins / Erddyn James*

*Bydd yr ysgol Sul yn cwrdd yng Nghapel Noddfa*

1 Cyfarfod Cenhadol Chwiorydd Gogledd Ceredigion
yng Nghapel y Garn am 2.30 o'r gloch
Anerchir gan Miss Catrin Hughes ar ei hymweliad â Lesotho

**2** Oedfa'r bore am 10 o'r gloch yng Nghapel Noddfa

5 Cwrdd Chwiorydd y Garn
Cinio yn y Wildfowler, Tre'rddôl, am 12.30 o'r gloch

**9** *Sul y Blodau*
Oedfaon am 10 a 5 o'r gloch
dan arweiniad y Parch Elfed ap Nefydd Roberts

14 *Y Groglith*
Oedfa gymun i'r ofalaeth dan arweiniad Dr Rhidian Griffiths
yng Nghapel Seion am 10 o'r gloch

**16** *Sul y Pasg*
Gwasanaeth y Pasg dan ofal yr aelodau am 10 o'r gloch

**23** Oedfaon am 10 a 5 o'r gloch
dan arweiniad y Parch. Ddr John Tudno Williams
Cymun yn oedfa'r bore

**30** Oedfa'r ofalaeth am 10 o'r gloch
dan arweiniad y Parch. Ddr R. Watcyn James

# Mai

*Blaenor y Mis: Alan Wynne Jones*

*I gyfarch wrth y drysau: D. Elystan-Morgan / Gruffydd Aled Williams*

*Bydd yr Ysgol Sul yn cwrdd yng Nghapel y Garn*

5 Pwyllgor Swyddogion y Garn am 2 o’r gloch

**7** Oedfaon am 10 a 5 o’r gloch
dan arweiniad y Parch. J. E. Wynne Davies
Cymun yn oedfa’r bore

**14** Cymanfa Ganu Unedig Gogledd Ceredigion
Capel Bethel, Tal-y-bont, am 10 a 5.30 o’r gloch
Arweinydd: Alwyn Evans, Machynlleth

17 Pwyllgor Eglwys y Garn am 7 o’r gloch

**21** *Sul Cymorth Cristnogol*
Oedfaon am **10.30** a 5 o’r gloch
dan arweiniad y Parch. John Roberts
Cinio Bara a Chaws yn dilyn oedfa’r bore

**28** Oedfaon am 10 a 5 o’r gloch
dan arweiniad Miss Beti Griffiths

## Mehefin

*Blaenor y Mis: Vernon Jones*

*I gyfarch wrth y drysau: Dewi G. Hughes / Eddie T. Jenkins*

*Bydd yr ysgol Sul yn cwrdd yng Nghapel Noddfa*

**4** *Sul y Pentecost*
Oedfa’r bore yng Nghapel Noddfa



**11** Oedfaon am 10 a 5 o’r gloch
dan arweiniad y Parch. Ddr Terry Edwards
Oedfa gymun yn y bore; oedfa’r hwyr ym Methlehem, Llandre

**18** Oedfaon am 10 a 5 o’r gloch
dan arweiniad y Parch. Ifan Mason Davies

24 Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro
Capel y Garn am 1.30 a 6 o’r gloch

**25** Oedfaon am 10 a 5 o’r gloch
dan arweiniad Mr Aled Lewis Evans

Gŵyl yr ysgolion Sul am 11.30 o’r gloch
yng nghwmni Martyn Geraint a Meilyr Geraint
Canolfan y Morlan, Aberystwyth
Casgliad tuag Apêl y Pilipinas: Corwynt Cariad

## *Corwynt Cariad*

Mae 2017 yn flwyddyn apêl arbennig gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru, fel sy'n digwydd yn rheolaidd bob pum mlynedd. Thema'r apêl eleni yw 'Corwynt Cariad' a bydd yr arian a godir yn cael ei ddefnyddio, drwy weithio gyda phartneriaid Cymorth Cristnogol, i gefnogi trigolion Ynysoedd y Pilipinas (Philippines).

Gwlad o dros 7,400 o ynysoedd yng ngorllewin y Môr Tawel yw Gweriniaeth y Pilipinas, ac mae dros 100 miliwn o bobl yn byw yno. Mae'n agos at y Cyhydedd, ac yn dioddef daeargrynfeydd a chorwyntoedd, yn enwedig yn sgil y newid sy'n digwydd yn yr hinsawdd.

Er ei bod wedi datblygu llawer ers iddi ddod yn wlad annibynnol yn 1945, mae tlodi difrifol yn parhau yno, yn enwedig yn yr ardaloedd gwledig ac yn y slymiau yn y dinasoedd mawr.

Mae Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn gobeithio y bydd pob aelod unigol yn anelu at gyfrannu **£14+** tuag at y gwaith – llai na phris paned o goffi bob wythnos i ni, ond swm a fydd yn gwneud gwahaniaeth mawr i drigolion y Pilipinas. Cofiwch y gallwch ychwanegu at werth eich cyfraniad trwy lenwi Datganiad Cymorth Rhodd.



Un ffordd o gefnogi'r apêl yw prynu matiau bwrdd sydd wedi'u gwneud gan bobl o gymuned Baseco yn ardal pothladd Manila, prifddinas y wlad. Mae'n gymuned fawr ac yn ardal dlawd iawn, ag amodau byw gwael. Mae grŵp Urban Poor Associates yn helpu'r bobl hyn i gael tai ac amodau byw gwell. Gellir defnyddio'r matiau hyn yn symbol o bobl y Pilipinas yn y capel, er enghraifft ar fwrdd y cymun, neu yn y cartref. Mae gwahanol liwiau ar gael, ac maent ar werth am £15 o swyddfa Cymorth Cristnogol (neu cysylltwch â Marian am fanylion).

### *Clwb Ieuenctid Cristnogol*

Rwy'n falch o ddweud bod y grŵp CIC yng Nghapel y Garn yn parhau, ac mae'n wych gweld y bobl ifanc yn dechrau dod â'u ffrindiau gyda nhw i'r holl weithgareddau sy'n cael eu cynnal.

Cawsom noson dda iawn ddechrau'r flwyddyn gyda chriw Coleg y Bala, a ddaeth i gynnal sesiwn hwyliog gyda ni. Yn ystod y tymor, rydym wedi gwneud llawer o wahanol weithgareddau: cwis, Gemau Gwirion, 'Minute to Win Challenges', a llawer mwy. Oherwydd brwdfrydedd y bobl ifanc rwy'n hapus iawn ein bod wedi penderfynu cynnal y clwb yn wythnosol ar ôl gwyliau'r Pasg.

Hoffwn gymryd y cyfle yma i ddiolch yn fawr iawn i'r Parchedig Wyn Morris am ei holl gymorth gyda chlwb CIC dros y blynyddoedd a dymuno'r gorau iddo yn ei ymddeoliad.

Os hoffech fwy o wybodaeth am Glwb CIC, cysylltwch â fi: Zoe Jones – zoejones34@gmail.com neu 07584411524.

### *Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth*


Cyfarfu'r aelodau yn festri capel Rehoboth, Tre-Taliesin, brynhawn Mawrth, 13 Rhagfyr, ac estynnwyd croeso i'r gŵr gwadd, sef John Gwyn Jones, Capel Seion. Yn ystod y cyfarfod cawsom ei atgofion am dair ardal y bu'n byw ynddynt, sef Blaenpennal, Penuwch a Chapel Seion. Adroddodd hanes diddorol ei deulu a'r cymeriadau yn yr ardal, ynghyd â'i atgofion am ddyddiau ysgol, yr ysgol Sul a'r Clwb Ffermwyr Ifainc gan liwio'r cyfan drwy ddangos nifer fawr o luniau. Diolchwyd yn gynnes iddo am brynhawn diddorol cyn mwynhau'r te a chacennau a baratowyd gan Eiriona Metcalfe, Carys Briddon a Non Griffiths.

Cafwyd prynhawn difyr yn y cyfarfod ar 10 Ionawr pan groesawyd Phil Davies, Tal-y-bont, atom. Teitl ei sgwrs oedd 'Hwn a'r Llall' a chafwyd ganddo hanesion diddorol a llawn hiwmor am y gymdogaeth glòs a fu'n bodoli yn ardal Llandysul. Adroddodd nifer o'i gerddi i gloi'r cyfarfod. Paratowyd y te ar y diwedd gan Non Griffiths a Carys Briddon.

Yn y cyfarfod ar 14 Chwefror estynnodd Eiriona Metcalfe groeso i'r wraig wadd, sef Marian Beech Hughes, Bow Street. Teitl ei chyflwyniad oedd 'O Faes y Garn i Vancouver', a chawsom glywed am y llefydd y bu hi a'i gŵr yn ymweld â hwy yn ystod eu taith i Ganada yn haf 2015, a hefyd eu gweld drwy gyfrwng y lluniau ardderchog a dynnwyd ganddynt. Roedd pawb wedi mwynhau awr ddifyr dros ben ac wedi dysgu llawer am y wlad. Yna mwynhawyd y te a'r cacennau a baratowyd gan Meinir Fleming a Mona Rowlands.

*Carys Briddon*

# Tudalen y Plant




Ar Sul y Blodau teithiodd Iesu ar gefn asyn i mewn i ddinas fawr Jerwsalem. Roedd tyrfa enfawr o bobl wedi dod i'w gyfarfod, gan roi eu dillad a dail palmwydd ar y ffordd. Roedden nhw'n ei gyfarch fel Brenin. Roedden nhw'n gweiddi, "Hosanna!" a "Bendigedig yw'r hwn sy'n dod yma yn enw'r Arglwydd!"

Faint o blant sydd yn y llun? ______________________________

Faint o anifeiliaid sydd yn y llun? ___________________________

Faint o ddrysau sydd yn y llun? ____________________________

Faint o ddail palmwydd sydd yn y llun? ______________________

Pwy sy'n eistedd ar yr asyn? ______________________________

Llongyfarchiadau i **Efanna Lewis**, Ysgol Sul Pen-llwyn, enillydd tasg y rhifyn diwethaf, a diolch i'r 15 ohonoch a fu'n cystadlu.

## *Gwasanaeth Gŵyl Ddewi*




Bore Sul, 5 Mawrth, cynhaliwyd gwasanaeth unedig i'r Garn a Noddfa i ddathlu gŵyl ein nawddsant. Roedd y gwasanaeth dan arweiniad y Parch. Richard Lewis, a chymerwyd rhan hefyd gan y plant, a hyfryd oedd eu gweld yn eu gwisgoedd lliwgar.



# *Newyddion Seion*



Llongyfarchiadau a phob bendith i Mared a Marc, a briodwyd yn Seion ar ddydd Gwener olaf y llynedd, 30 Rhagfyr. Gweinyddwyd yn y briodas gan y Parchedigion Wyn Rhys Morris, Bugail, a John Tudno Williams. Mae Mared yn ferch i Roland ac Eirlys Williams, Aneddle, ac wedi mynychu Ysgol Sul Seion yn ffyddlon iawn cyn ymaelodi yn yr eglwys. Mae Marc Rhys Edwards yn hannu o Bencoed, Bro Morgannwg, ac yno y mae'r ddau bellach yn ymgartrefu. Dymuniadau gorau iddynt ac i'w teuluoedd.

Cydymdeimlwn yn fawr â theuluoedd y diweddar Mr Gwilym Howells a Jonathan Hooper a fu farw'n ddiweddar. Bu Mr Howells a'i briod yn byw yn Nhŷ Capel Seion am nifer fawr o flynyddoedd, yn fawr eu parch a'u gwasanaeth i'r capel a'r ardal. Talwyd teyrnged haeddiannol iawn i Gwilym yn ei angladd yn Seion gan John Gwynn a gwasanaethwyd gan y Parchedigion Wyn Rhys Morris a John Tudno Williams. Ym Maes Gogerddan, Aberystwyth yr oedd Gwilym yn byw ers nifer o flynyddoedd ond ymddiddorai'n fawr yn hanes Seion a'r pentref nes ei farw. Deiliaid diweddaraf y Tŷ Capel oedd Jonathan a'i deulu ers ugain mlynedd cyn iddynt symud ddiwedd y llynedd i fyw ym Mhenparcau.

Mae Clwb Plant ac Ieuenctid i flynyddoedd ysgol 4–8 dan arweiniad Zoe Glynne Jones wedi ailgychwyn ac yn cyfarfod yn Neuadd y Paith ar nos Lun yn wythnosol rhwng 6.00 a 7.30 o'r gloch.

Trefnwyd rhaglen amrywiol a diddorol iawn o weithgareddau i'r grŵp. Mae croeso i unrhyw un ymuno neu alw mewn i gefnogi a dangos diddordeb.

Bore Gwener, 3 Mawrth, cynhaliwyd oedfa Dydd Gweddi Byd-eang y Chwiorydd yn Seion. Braf oedd croesawu chwiorydd o Rydyfagwyr i ymuno yn yr oedfa. Y siaradwraig wadd oedd y Parchedig Judith Morris a chafwyd ganddi neges yn pwysleisio fod Gras Duw yn rhodd ar gael i bob un ohonom yn deg a di-wahân, nid fel yn Nameg y Gweithwyr yn y Winllan lle ymddengys nad oedd yr un cyfiawnder yn bodoli i'r holl weithwyr. Cyn yr oedfa cafwyd coffi a chacennau wedi eu coginio yn null traddodiadol Ynysoedd y Pilipinas gan Magdalen Davies. Paratowyd arddangosfa o luniau, bwydydd a deunyddiau'r Ynysoedd yn chwaethus iawn gan Eirlys Williams. Unwaith eto, diolch i bawb a fu'n cymryd rhan, i'r Parchedig Wyn Morris am ymuno â ni, ac edrychwn ymlaen at gael oedfa fendithiol eto y flwyddyn nesaf.

*Ina Tudno Williams*

Mabli Hall yn torri cacen pen-blwydd ei thad, Eric Hall, yn 90 oed.

Gwnaed y gacen gan Dwysli Peleg-Williams a'i rhannu yn dilyn yr oedfa yn y Garn fore Sul, 19 Chwefror.

Rydym yn gwerthfawrogi haelioni Eric a'r teulu yn fawr, yn enwedig gan fod Eric yn yr ysbyty adeg y dathliad.

Anfonwn ein dymuniadau gorau a'n cofion ato, ac at Gaenor hefyd.



***Gwasanaeth Dydd Gweddi Byd-eang y Chwiorydd, 3 Mawrth***



Rhai o chwiorydd Capel y Garn, Capel Noddfa ac Eglwys Llanfihangel Genau'r Glyn a gymerodd ran yn y gwasanaeth, a baratowyd gan Chwiorydd Ynysoedd y Pilipinas ar y thema 'Ydw i'n annheg â thi?' Roedd Capel Noddfa wedi'i addurno ag eitemau a nwyddau o'r ynysoedd.



## *Cymdeithas Lenyddol y Garn*

Daeth tymor y gymdeithas i ben yn Ysgoldy Bethlehem nos Wener, Mawrth 17eg, gyda noson gymdeithasol, hwyliog. Ar ôl pryd o gawl cartref a tharten afal cynhaliwyd Eisteddfod Fach Ni Eto gyda Geraint Evans, Tal-y-bont, yn tafoli'r gwahanol dasgau. Cyfarfu'r gymdeithas chwe gwaith dros y gaeaf a darparwyd rhaglen amrywiol, ddiddorol ar gyfer y ffyddloniaid.



"Ysbrydoliaeth" oedd testun sgwrs yr awdures a'r dramodydd ifanc Manon Steffan Ros ym mis Chwefror. Soniodd Manon yn hollol onest ac agored am ddylanwad ei theulu a'r broydd lle'i magwyd ar ei gwaith.

Yn wir, gellid dweud y byddai "ysbrydoliaeth" wedi bod yn destun addas ar gyfer dau gyfrannwr arall i'r rhaglen. Ei lyfr *Ceredigion, wrth fy nhraed* oedd testun Iestyn Hughes. Mewn orig hynod ddifyr dangosodd Iestyn nifer o luniau o henebion, tirwedd a golygfeydd o wahanol ardaloedd yng Ngheredigion oedd wedi ei ysgogi i gynhyrchu'r gyfrol. Roedd hyn yn wir hefyd am y "Noson o Bictiwrs" a gynhaliwyd yng Nghanolfan Morlan yn Aberystwyth yng nghwmni Wynne Melville Jones. Cynhaliwyd y cyfarfod yn y Morlan gan fod arddangosfa o baentiadau o eiddo Wynne ymlaen yno ar y pryd. Dywedodd iddo gael ei sbarduno gan ei fam ac Ogwyn Davies, ei athro celf yn Nhregaron.

Tipyn o frethyn cartref, ar lafar ac ar gân, gan nifer sylweddol o'r aelodau gafwyd i ddathlu'r Nadolig tra ym mis Ionawr cawsom gwmni Dewi Jones, brodor o Uwchmynydd. Testun Dewi oedd "Bridio defaid o Gymru i Seland Newydd". Cafwyd hanes ei fagwraeth, ei gyfnod fel myfyriwr a'i waith ymchwil yn Aberystwyth ac yn Seland Newydd, a hanes sefydlu a datblygu'r cwmni rhyngwladol Innovis, sydd â'i bencadlys yn Peithyll, Capel Dewi, gyda Dewi yn Brif Weithredwr. Gŵr ifanc sydd wedi mentro a llwyddo.

Braf oedd cael cwmni ffrindiau o Gapel Noddfa yn ystod y tymor. Estynnir croeso cynnes i unrhyw un sydd am ymuno â ni fis Hydref nesaf.

*Alan Wynne Jones* (Cadeirydd)

## *Llongyfarch ym Madog*



Y Parch Wyn Morris ac Alwyn Hughes yn cyflwyno llun gan Ruth Jên i Tegwyn Lewis, Rhos-goch, i nodi ei 50 mlynedd fel blaenor yng Nghapel Madog, yn ystod y gwasanaeth brynhawn Sul, 19 Mawrth.

***Swyddogion yr Ofalaeth***
*Cadeirydd*: Alan Wynne Jones, Y Garn
*Is-gadeirydd*: Robert Williams, Rehoboth
*Ysgrifennydd*: Gruffydd Aled Williams, Bronafon, Dolau, Bow Street, Aberystwyth, Ceredigion, SY24 5AE
(ffôn: 01970 820664; ebost: gawilliams1@btinternet.com)

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn **11 Mehefin**:

Mr Dewi G Hughes
Bod Hywel, Bow St
☎01970 828026
dewianerys@gmail.com

Mrs Marian B Hughes
14 Maes y Garn, Bow St
☎01970 828662
marian_hughes@btinternet.com